

Bwletin Awdurdod S4C

- Awst/Medi 2001

Aelodau'r Awdurdod

Adroddwyd bod y Cynulliad bellach wedi cytuno ar y ddau aelod newydd a roedd disgwyl i'r argymhelliad gael ei yrru ymlaen i'r DCMS ymhen rhyw wythnos neu ddwy.

Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio

Wrth nodi fod cyfnod Janet Lewis-Jones fel cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi dod i ben, dymunodd yr Aelodau ddiolch yn fawr iawn iddi am gadeirio'r Pwyllgor dros nifer fawr o flynyddoedd gan roi cyfuniad o strategaeth a gofal manwl i'r gwaith. Roedd pawb yn wir werthfawrogol ac yn ddiolchgar o'i holl waith.

Cyfarfod gyda'r Gweinidog dros Ddarlledu, Ffilm a Thwristiaeth

Adroddodd y Cadeirydd fod cyfarfod buddiol ac adeiladol iawn wedi'i gynnal gyda Dr Kim Howells, AS, ar 10 Gorffennaf. Manteisiwyd ar y cyfle i ddangos iddo y bloc technegol ac adeilad S4C Rhyngwladol ac i egluro'r gwahanol agweddau o S4C. Yn ystod y drafodaeth, rhoddodd Dr Howells amlinelliad o'r amserlen ar gyfer y Ddeddf Gyfathrebu a fyddai'n cael ei chyhoeddi mewn ffurf drafft yn y flwyddyn newydd. Fe fu hwn yn gyfarfod da, a gobeithiwyd fod Dr Howells wedi gadael S4C gyda darlun llawer mwy cyflawn o waith y Sianel nag oedd ganddo cyn ei ymweliad.

Derbyniadau Gwleidyddol S4C

Adroddwyd bod derbyniad S4C yn y Senedd wedi bod yn un llwyddiannus iawn gyda'r rhan helaeth o Aelodau Seneddol Cymru yn bresennol. Fe fu'r derbyniad ar gyfer y Cynulliad yn yr Eglwys Norwyeg hefyd yn ddigon llwyddiannus er, wrth gwrs, yr oedd yna awyrgylch trist i'r achlysur gyda'r newyddion y diwrnod hwnnw fod Val Feld, AC, wedi marw. Ystyriodd S4C ohirio'r digwyddiad ond yn y diwedd penderfynwyd trwy ymgynghoriad â swyddfa Llywydd y Cynulliad y dylai fynd yn ei flaen mewn modd mwy tawel. Yn ôl y disgwyl o dan yr amgylchiadau hyn, ni fu rhai o'r Aelodau Cynulliad oedd wedi derbyn gwahoddiad yn bresennol. Mynegodd y rheiny a oedd yn bresennol gwerthfawrogiad o'r ffaith bod y derbyniad wedi ei gynnal mewn modd cywir a theilwng.

Yr Eisteddfod Genedlaethol

Tynnwyd sylw i'r ffaith bod derbyniad S4C yn yr Eisteddfod yn cael ei gynnal ddydd Iau, 9 Awst.

Nod Siarter

Nodwyd bod S4C wedi rhoi i mewn ei chais i gadw'r Nod Siarter. Fe wnaeth y Cadeirydd, ymhlith eraill, gyfarfod gyda'r aseswyr ar 18 Gorffennaf. Teimlwyd bod cais cryf wedi ei yrru a roedd gobeithion yn uchel ar gyfer cadw'r wobwr.

Cyngor Safonau Darlledu

Nodwyd bod Cymru dal heb gynrychiolydd ar y Cyngor a mynegwyd pryder bod hyn yn argoeli'n wael ar gyfer cynrychiolaeth ar yr OFCOM newydd. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Cyngor Safonau ynglyn â'r sefyllfa.

Cyfarfod yr Awdurdod gyda Chyngor Darlledu Cymru

Trafodwyd y cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Cyngor Darlledu y noson gynt. Roedd y cyfarfod wedi bod yn gyfle da i sicrhau fod y Cyngor yn ymwybodol o brif amcanion S4C a chafwyd trafodaeth fuddiol ar draws nifer o bynciau cyfredol.

Comisiynau 2002-2003

Nodwyd cynnwys y ddogfen a gyhoeddwyd y diwrnod gynt yn gosod allan manylion comisiynau 2002-03. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Rhaglenni dynnu sylw at rai prif benawdau, sef:

- bod yr oriau rhaglenni plant wedi'u hymestyn, gydag awr yn cael ei ddarlledu yn y prynhawn ar analog.
- y newid yn yr amserlen rhwng 6.00 pm a 7.00 pm. Fe fyddai yna raglen gylchgrawn hanner awr newydd am 6.00 pm a fyddai'n canolbwyntio ar adlewyrchu digwyddiadau yng Nghymru. Roedd yna ymwybyddiaeth wedi codi o gyfarfodydd cyhoeddus yr Awdurdod fod pobl yn teimlo nad oedd eu storïau nhw yn cael eu gweld a'u clywed ar y teledu; y gobaith oedd y byddai'r rhaglen hon yn cwrdd â'r gofyn hwnnw. Am 6.30pm byddai yna raglen hanner awr ar gyfer y teulu, gyda chyfresi megis *Rownd a Rownd* ac eraill.
- y pwyslais ar ddrama. Roedd yna ymlyniad cryfach byth i ddrama yn y ddwy flynedd i ddod. Fe fyddai'r slot ar nos Sul yn parhau ond gyda mwy o ddrama yn ystod yr wythnos. Roedd S4C wedi profi tro ar ôl tro fod ei drama yn dda ac yn boblogaidd. Hefyd, byddai patrwm yn cael ei sefydlu lle byddai ail gyfleoedd i weld dramâu S4C. Teimlwyd yn gryf bod eisiau i S4C datblygu fel sianel oedd yn cynnig ail gyfleoedd i weld ei rhaglenni. Er hynny, rhaid cofio bod yna botensial i'r Sianel gael ei gweld fel sianel ail-ddarllediadau ac fe fyddai'n bwysig i gael y cydbwysedd yn iawn. Roedd hefyd angen bod yn ofalus ynglyn â phryd i roi is-deitlau agored ar y sgrîn a'r cynllun ar hyn o bryd oedd i ganolbwyntio hyn ar yr adegau ail-gyfleoedd i wyllo.

Trafododd Aelodau'r Awdurdod beth fyddai goblygiadau ac effaith y comisiynau hyn ar y cwmnïau cynhyrchu annibynnol ac amlinellwyd iddynt ba gwmnïau oedd wedi elwa ac wedi colli allan o'r rownd gomisiynu a'r goblygiadau posibl i rai ohonynt o ran gorfod colli swyddi. Wrth nodi'r sefyllfa, ystyriwyd pa gymorth neu gyngor gallai S4C gynnig i'r cwmnïau oedd wedi colli allan yn y rownd gomisiynu presennol. Awgrymwyd bod ELWa yn gallu rhoi pecynnau at ei gilydd er mwyn ceisio ail-hyfforddi neu ddatblygu sgiliau rheiny oedd wedi dioddef fel canlyniad. Nodwyd bod rôl gan TAC, Cyfle a Sgrîn i'w chwarae yn y cyd-destun hwn hefyd.

Gyda golwg at y rownd gomisiynu nesaf cyfeiriwyd at y modd yr oedd S4C a'r byd darlledu wedi ac yn parhau i ddatblygu a newid. Byddai angen i S4C weithio gyda'r cwmnïau annibynnol er mwyn sicrhau y byddai'r syniadau byddent yn eu cyflwyno yn ystod y ddwy flynedd nesaf yn addas at anghenion a dymuniadau'r Sianel. Roedd yna ddyhead hefyd i ystyried ymhellach beth allai S4C wneud i geisio sicrhau bod yna gyfleoedd ar gael i ganiatáu i dalent ifanc ddod i'r wyneb.

Gwasanaethau Digidol Newydd y BBC

Cyfeiriwyd at ymgynghoriad yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (ADCCh) parthed cynlluniau'r BBC ar gyfer gwasanaethau digidol newydd. Ystyriodd a chytunodd yr Aelodau ar ymateb i'w ddanfon at yr ADCCh.

Richard & Judy

Er bod amserlennu rhaglenni yn fater i swyddogion S4C yn hytrach na'r Awdurdod, daethpwyd â'r mater yma gerbron yr Awdurdod oherwydd mater o egwyddor oedd yn codi yn sgil yr argymhelliad y dylid symud rhaglenni Cymraeg i blant o 5.00 pm a fyddai'n caniatáu darlledu *Richard & Judy* ar yr un pryd â Channel 4. Roedd yr Aelodau wedi cydnabod bod yna, beth bynnag, fwriad i lunio amserlen o'r flwyddyn newydd fyddai'n cynnig awr o raglenni plant rhwng 4.00 a 5.00 pm. Er hynny, roedd dal angen cymryd penderfyniad ynglyn â beth ddylid ei wneud am ddarlledu *Richard & Judy* pan fyddai Channel 4 yn dechrau ei darlledu yn yr hydref. Cafwyd trafodaeth fanwl a gofalus ar mater hwn ac wedi pwysu a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol cytunwyd y dylid derbyn argymhelliad y swyddogion i ddarlledu'r rhaglenni plant am 4.00 pm o'r hydref ymlaen. Fe fyddai hyn yn caniatáu i *Richard & Judy* gael ei ddarlledu am 5.00 pm.

Rygbi a Phêl Droed

Trafododd yr Awdurdod benderfyniad y BBC i beidio â chario ymlaen gyda'r rhaglen bêl-droed *Gôl* a'r sylw roedd hyn wedi'i ddenu.

Adolygiad o Berfformiad yn erbyn Targedau yn y Cynllun Corfforaethol 2001-2003

Trafodwyd perfformiad S4C yn erbyn y targedau wedi'u gosod yn y cynllun corfforaethol. Hyd yn hyn yr oedd y mwyafrif helaeth o'r targedau yn cael eu cyrraedd ond mynegwyd peth pryder am y gostyngiad yn y ffigurau gwylio oedd yn dangos effaith colli Eisteddfod yr Urdd a'r Sioe Amaethyddol.

Deddf Ryddid Gwybodaeth 2000

Derbyniwyd adroddiad yr Ysgrifennydd a roddodd asesiad rhagarweiniol ar arwyddocâd y Ddeddf Ryddid Gwybodaeth 2000 ar weithgareddau S4C. Y cam nesaf fyddai cynhyrchu cynllun o'r wybodaeth roedd S4C yn ei gyhoeddi. Byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cyflwyno arweiniad ar ffurf y cynllun hwnnw a'r hyn dylid cynnwys ynddo. Fe fyddai adroddiad pellach ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod maes o law.

Adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth

Derbyniwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn deillio o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2001. Rhoddwyd sylw i ddau beth penodol:

(a) Y defnydd o Saesneg yn *Porc Peis Bach* –

- (i) Wrth fod yn ymwybodol bod yr Awdurdod eisoes wedi mynegi peth anffodlonrwydd gyda'r maint o Saesneg yn y gyfres flaenorol o *Porc Peis Bach*, roedd yr Uned Fonitro wedi nodi bod hyn wedi ymestyn yn yr ail gyfres tu hwnt i ddefnydd gan y cymeriadau hynny oedd wedi'u sefydlu eu hieithweddau yn y gyfres gyntaf. Fel esiampl, dangoswyd i'r Awdurdod clip o olygfa (yn ymwneud â sipsi) lle, ym marn y Grwp Cydymffurfiaeth, gellid fod wedi osgoi'r defnydd o Saesneg. Trafododd yr Aelodau yr esiampl gerbron a'r defnydd o Saesneg yn gyffredinol yn y gyfres hon.
- (ii) Cytunwyd bod golygfeydd yn cyflwyno cymeriadau newydd Saesneg eu hiaith (fel yng ngolygfa'r sipsi) uwchben y rheiny yn cynnwys cymeriadau eisoes wedi'u sefydlu yn ystod y gyfres gyntaf (fel y fam) yn arwain at lefel annerbyniol o Saesneg. Nid rhaglen ddogfen oedd hon ac nid oedd y ddadl taw'r nod oedd cyfleu realedd mor gryf mewn drama ffuglen; rhaid bod yna gyfiawnhad clir a chryf dros ddefnyddio'r Saesneg ar bob achlysur. Roedd y gyfres wedi mynd yn rhy bell yn y defnydd o Saesneg ac yr oedd angen mwy o gysondeb yn y Saesneg hynny oedd yn cael ei defnyddio. Dylai swyddogion S4C ei wneud yn glir i'r cwmni cynhyrchu dan sylw ac i gwmnïau cynhyrchu yn gyffredinol bod yr Awdurdod yn disgwyl iddynt ddilyn y canllawiau wedi'u gosod.

(b) **Adroddiad ar ymdriniaeth rhaglenni S4C o gynadleddau'r Pleidiau Gwleidyddol 2000-2001** – Ystyriwyd yr adroddiad wedi'i baratoi gan yr Uned Fonitro. Nodwyd nad oedd yna yn gyffredinol achosion i bryderu am degwech na chydbwysedd y sylw a roddwyd i'r gwahanol bleidiau. Nodwyd hefyd y byddai yna adroddiad llawn ar yr Etholiad Cyffredinol ar gael i'r Awdurdod ym mis Medi.

Materion Eraill

Yn ogystal, nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2001
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr.
- Adroddiad Ymchwil – Perfformiad y gwasanaeth yn erbyn targedau
- Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.